Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynhaliwyd **Ddydd Gwener, 7 Mai 2021** am 9.00am trwy fideo gynadledda.

**Presennol**
Mr Jim Barclay
Mr Paul Barlow
Ms Ebony Banks
Mrs Laura Gough *(eitemau 20.65 i 20.78 yn unig)*
Yr Athro Maria Hinfelaar
Mr Colin Heron
Mrs Celia Jenkins
Yr Athro Sandra Jowett
Mr Paul McGrady
Mrs Judy Owen
Ms Maxine Penlington (Cadeirydd)
Mr David Sprake
Mr David Subacchi
Ms Chloe Williams

**Swyddogion:**
Mrs Val Butterworth *(Clerc y Bwrdd)*
Mr David Elcock *(Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid)*
Mr Pete Gibbs *(Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol)*
Dr Aulay Mackenzie *(PVC Partnerships)*
Mrs Lynda Powell *(Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau)*
Yr Athro Claire Taylor *(Dirprwy Is-Ganghellor)*
Mr James Dawson *(Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr) [Eitemau 20.80 a 20.86 yn unig]*

**Ymddiheuriadau:**
Mrs Claire Homard
Mr Askar Sheibani

| | | |
|---|---|---|
| **20.65** | **Adroddiad adolygiad perfformiad y Cadeirydd** | |
| | *Nid oedd Cadeirydd y Bwrdd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.*<br><br>Adroddodd yr Is-gadeirydd am ganlyniadau adolygu perfformiad y Cadeirydd a gynhaliwyd gan ddefnyddio pecyn arolwg 360 gradd fel ymarfer peilot.<br><br>Roedd y pecyn arolwg newydd yn defnyddio dull ansoddol ac yn cynnwys 68 o ddatganiadau a chwestiynau, yn cwmpasu themâu dan y penawdau *meddwl, cynnwys, ysbrydoli a chyflawni.* Diolchwyd i'r ymatebwyr am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg.<br><br>Roedd yr ymatebwyr wedi rhoi sgôr uchel i'r Cadeirydd ar draws yr holl ymddygiadau ac yn well nag asesiad y Cadeirydd ei hun ym mwyafrif yr achosion. Roedd nifer fechan o feysydd â'r potensial i'w datblygu y gallai'r Bwrdd ystyried eu symud ymlaen ar y cyd.<br><br>Byddai'r Is-gadeirydd yn trafod yr adroddiad llawn gyda'r Cadeirydd ac yn darparu adroddiad llawnach maes o law. Hefyd bwriedir adolygu addasrwydd y pecyn arolwg i'w ddefnyddio wrth adolygu perfformiad Cadeirydd y Bwrdd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.66** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |

| | | |
|---|---|---|
| | *Ymunodd Cadeirydd y Bwrdd yn y cyfarfod.*<br><br>Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.<br><br>Llongyfarchwyd Chloe Williams a Lauren Hole ar eu hethol yn Llywydd ac Is-lywydd yr Undeb Myfyrwyr yn ôl eu trefn, yn effeithiol o 1 Gorffennaf 2021. Diolchwyd i Ebony Banks, Llywydd blaenorol yr Undeb Myfyrwyr, am ei chyfraniad fel llywodraethwr ac am sicrhau blaenoriaethu buddiannau'r myfyrwyr. Fe'i llongyfarchwyd hefyd ar ei phenodiad fel intern gyda'r Tîm Cymorth Gweithredol a byddai'n cael ei chroesawu i gyfarfod mis Gorffennaf fel arsylwr yn unol â'r arferion wedi'u sefydlu. | |
| **20.67** | **Datgan buddiannau** | |
| | Nid oedd unrhyw wrthdrawiad buddiannau ag unrhyw eitem ar yr agenda. | |
| **20.68** | **Aelodaeth** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Cynigion y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ynghylch penodi llywodraethwyr newydd.<br>(ii) Awgrymiadau ynghylch defnyddio asiantaeth allanol i chwilio am Gadeirydd newydd i'w benodi o 1 Ebrill 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br><br>**20.68.01 Llywodraethwyr newydd**<br>Roedd Mr Barlow a Mr Barclay wedi ffurfio'r panel cyfweliad gyda'r Cadeirydd a'r Is-Ganghellor a diolchwyd iddynt am eu hamser a'u cyfraniad i'r broses. Roeddynt o'r farn fod y broses wedi bod yn gadarn gydag ymgeiswyr cryf a fyddai'n cryfhau'r Bwrdd ac yn darparu capasiti ychwanegol.<br><br>**20.68.02 Chwilio am Gadeirydd newydd**<br>Esboniwyd y rhesymeg y tu ôl i ddefnyddio asiantaeth allanol. Byddai'r broses, yn cynnwys sut y byddai'r llywodraethwyr yn ymwneud â'r broses, yn cael ei chytuno maes o law.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO:<br><br>(i) Penodiad Mrs Maureen Wain, Mrs Diane McCarthy a Mr Richard Thomas fel llywodraethwyr annibynnol o 1 Gorffennaf 2021 tan 31 Awst 2024.<br>(ii) Penodiad Mr Liam Wynne a Mr Richard Campbell fel llywodraethwyr annibynnol yn weithredol o 1 Medi 2022.<br>(iii) Penodiad Mr Will Naylor fel aelod cyfetholedig y Pwyllgor Adnoddau Dynol ac yn ddilynol fel llywodraethwyr annibynnol yn weithredol o 1 Medi 2023.<br>(iv) Defnyddio asiantaeth allanol i chwilio am Gadeirydd newydd y Bwrdd; ac i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu orchwylio'r broses penodi'r asiantaeth chwilio a'r chwiliad dilynol am Gadeirydd newydd, gan adrodd a gwneud argymhellion i'r Bwrdd. | |
| **20.69** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2021.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>Bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth yn gofnod gwir a chywir y cyfarfod. | |
| **20.70** | **Materion yn codi** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.71** | **Adroddiad yr Is-Ganghellor** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad yr Is-Ganghellor (dosbarthwyd).<br><br>**Adroddwyd:**<br>Llongyfarchwyd yr Is-Ganghellor ar ei phenodiad fel Is-gadeirydd Prifysgolion Cymru ac fel Cymrodor Cymdeithas Ddysgedig Cymru.<br><br>Cafodd yr aelodau eu briffio am eitem sensitif yn fasnachol hefyd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI Adroddiad yr Is-Ganghellor. | |
| **20.72** | **Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr yr adroddiad a thynnodd sylw at y gwaith a'r gweithgareddau a gynhaliwyd ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.<br><br>Erbyn hyn mae'r Undeb Myfyrwyr wedi gwario'r cyllid £50k gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar ystod o weithgareddau i wella profiad myfyrwyr, yn cynnwys uwchraddio lolfa'r Undeb Myfyrwyr a gweithgareddau ymgysylltu gyda myfyrwyr. Roedd y Cyngor Myfyrwyr wedi cytuno ar nifer o benderfyniadau yn ddiweddar a arweiniodd at sefydlu swyddi swyddogion rhan amser newydd. Roedd yr etholiadau swyddogion sabothol a rhan amser diweddar wedi denu lefel uchel o gystadleuaeth am swyddi swyddogion o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.<br><br>Roedd cylchlythyr penodol ar gyfer myfyrwyr mewn sefydliadau partner yn cael ei ddatblygu a byddai nwyddau newydd Undeb Myfyrwyr ar gael i'r holl fyfyrwyr partner yn y Deyrnas Unedig gyda phostio tramor ar gael i fyfyrwyr partner tramor.<br><br>Mae'r Undeb Myfyrwyr wedi cyflwyno eu llythyr gwaith i'w asesu o ran Effaith Gwyrdd yr Undeb Myfywyr Cenedlaethol (NUS) ac roedd yn disgwyl ymweliad archwiliad yn ystod haf 2021.<br><br>Roedd y Ganolfan Cyngor wedi ymdrin â 35% yn llai o achosion hyd yma yn 2020/21 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019/20. Roedd hyn oherwydd lleihad yn yr achosion yn ymwneud â materion academaidd a'r nifer uwch o hawliadau amgylchiadau lleihaol i'r Brifysgol. Ystyriwyd bod lleihad yn yr achosion yn ymwneud ag iechyd meddwl a chymorth anabledd oherwydd bod myfyrwyr wedi derbyn gwell cymorth a chefnogaeth gan wasanaethau cymorth i fyfyrwyr y Brifysgol.<br><br>Diolchodd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr i'r Bwrdd am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, gan nodi ei bod wedi mwynhau ei chyfnod fel llywodraethwr. Roedd yr aelodau wedi'u plesio gyda hyd a lled y gwaith roedd yr Undeb Myfyrwyr yn ei wneud i wella profiadau myfyrwyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |

| | | |
|---|---|---|
| **20.73** | **Strategaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Y Strategaeth Ariannol ddiwygiedig yn dilyn adolygiad tair blynedd arferol.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y Strategaeth a thynnodd sylw at y mân addasiadau a wnaed a oedd yn ymwneud yn bennaf â'r angen i wella dulliau gwneud taliadau electronig. Tybiwyd fod y strategaeth yn gyson â strategaethau ariannol prifysgolion eraill a adolygwyd.<br><br>Gofynnodd y Bwrdd am gynnwys pennawd Rheolaeth Trysorlys penodol a mwy o fanylion yn y cynllun gweithredu o ran buddsoddi cyfalaf.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R Strategeth Ariannol a CHYTUNO i dderbyn Strategaeth wedi'i diweddaru, yn cynnwys yr wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani, cyn pen chwe mis. | |
| **20.74** | **Diweddariad ar ailgyllido'r benthyciad AIB** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar y datblygiadau o ran ailgyllido benthyciad AIB.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y cefndir ynghylch ailymgysylltu gydag AIB ynghylch ailgyllido benthyciad. Roedd AIB wrthi'n paratoi'r dogfennau ar gyfer eu pwyllgor credyd ar hyn o bryd. Roedd eu gofynion sicrwydd ar gyfer y benthyciad yn parhau dan drafodaeth gan fod y sicrwydd cyfredol ar Bentref Myfyrwyr Wrecsam a'r pentref llety myfyrwyr blaenorol, ond mae'r pentref llety i'w ddymchwel yn fuan. Rhagwelwyd na fyddai unrhyw sicrwydd mwy na Phentref Myfyrwyr Wrecsam yn feichus. Cadarnhawyd fod adnewyddu'r benthyciad ag AIB yn gyffyrddus y tu mewn i derfyn benthyca cymeradwy CCAUC.<br><br>Adroddwyd y rhoddwyd estyniadau ar gyfer cyflwyno cyfrifon 2019/20 i Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO parhau i negodi gydag AIB i gael benthyciad newydd dros gyfnod tair blynedd. | |
| **20.75** | **Adroddiad Rheolaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Yr Adroddiad Rheolaeth Ariannol hyd at 31 Mawrth 2021<br>(ii) Crynodeb cyllid ychwanegol CCAUC<br><br>**Adroddwyd:**<br><br>**20.75.01 Adroddiad Rheolaeth Ariannol**<br>Roedd y Brifysgol yn parhau ar darged i gyflawni gwarged ffafriol yn y flwyddyn hyd yma yn erbyn rhagfynegiad y flwyddyn lawn. Roedd cyllid ychwanegol CCAUC wedi cyfrannu at hyn gan ddarparu budd o £550k ar sefyllfa warged £270k.<br><br>Roedd y perfformiad yn gadarnhaol yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ariannol. Roedd arian parod a hylifedd yn parhau'n iach ac ar hyn o bryd ni ragfynegwyd gofyniad i gael cyfleusterau cyfalaf gweithiol yn ystod 2020/2021 na 2021/22. Roedd cydymffurfio â chyfamodau'n parhau'n dda hefyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd yr amrywiadau mwyaf ers rhagfynegiad Chwefror yn gysylltiedig â lleihad mewn ffioedd dysgu, lleihad mewn Addysg Drawswladol, yn bennaf oherwydd y sefyllfa yn Myanmar, ac arbedion tâl ychwanegol. Roedd y Cyfadrannau'n parhau i berfformio'n agos at eu targed. Roedd cyflawni'r dyraniad credydau rhan amser yn agos at yr £1.6m wedi'i gynnwys yn y gyllideb, ond y nod oedd cyflawni dyraniad llawn £2m CCAUC.<br><br>Roedd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru'n rhagfynegi sefyllfa niwtral net hyd at ddiwedd 2020/21. Roedd y cwmni wedi elwa o estyniad i'w gyllid gan Lywodraeth Cymru, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar draws 2020/21 a 2021/22. Roeddynt wedi gwneud cais am a derbyn cyllid ychwanegol gan ffynonellau eraill hefyd.<br><br>Roedd Glyndŵr Innovations Limited (GIL) yn rhagfynegi diffyg, yn arwyddocaol groes i'r gyllideb wreiddiol, ac roedd hyn yn effeithio ar berfformiad ariannol y Grŵp. Roedd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn edrych yn fanwl ar GIL ac wedi nodi fod rhagfynegiad tair blynedd diwygiedig i'w ystyried yng nghyfarfod Bwrdd GIL ar 27 Mai a bod yr Is-Ganghellor, yn ei swyddogaeth fel Cadeirydd Bwrdd GIL, i adrodd yn ôl i gyfarfod y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ym mis Mehefin.<br><br>Diolchodd y Bwrdd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a'i dîm am eu gwaith parhaus yn monitro'r sefyllfa ariannol yn fanwl ac am gynhyrchu adroddiadau clir.<br><br>**20.75.02 Cyllid Ychwanegol CCAUC**<br><br>Nodwyd mai cyfanswm y cyllid ychwanegol oedd £5.8m net, gyda chyfran uchel wedi'i ddyrannu ar gyfer llesiant myfyrwyr. Roedd yr amserlen gwariant a'r gofynion adroddiadau wedi bod yn heriol.<br><br>Llongyfarchodd y Bwrdd y Dirprwy Is-Ganghellor ar sicrhau ac arwain Prosiect Dysgu Digidol Cydweithredol y Rhwydwaith Addysgu a Dysgu a oedd yn cynnwys sefydliadau addysg uwch Cymru, Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), NUS Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.<br><br>Roedd yr aelodau'n dymuno cael cofnodi eu diolch i'r timau ystadau, Technoleg Gwybodaeth a Chyllid am eu gwaith yn dyrannu'r cyllid ychwanegol yn unol â'r amserlenni byr a ddarparwyd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R Adroddiad Rheolaeth Ariannol.<br><br>NODI'R lefelau cyllid ychwanegol gan CCAUC a'r cynnydd hyd yma. | |
| **20.76** | **Paratoi cyllideb 2021/22** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar baratoi cyllideb 2021/22.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Ariannol yr adroddiad a thynnodd sylw at rai o'r tybiaethau sylfaenol a'r pwysau ar gostau. Ers ysgrifennu'r adroddiad roedd sibrydion y byddai grant ailadroddus CCAUC yn cynyddu o lefelau 2020/21, byddai'r cynnydd cyflog yn is na'r 2.5% tybiedig a nawr roedd ansicrwydd ynghylch derbyn myfyrwyr rhyngwladol o'r India ym mis Medi o gofio'r cynnydd mewn achosion coronafeirws yn wlad. Byddai'r olaf yn cael ei adolygu gyda PVC Partnerships. Roedd Prifysgol Glyndŵr Wrecsam ar-lein ac Addysg Drawswladol yn parhau i dyfu felly roedd adnoddau'n gysylltiedig â'r ffrydiau gwaith hyn yn cael eu hadolygu. | |

<table>
<tr><td></td><td>Byddai cynllunio ar gyfer y contractau gofal iechyd Addysg a Gwella Iechyd Cymru, wedi'u heithrio o'r gyllideb ar hyn o bryd, yn dechrau unwaith y derbyniwyd cadarnhad p'un ai fyddai unrhyw gontractau'n cael eu dyfarnu i'r Brifysgol. Petai'n llwyddiannus byddai costau datblygu ychwanegol arwyddocaol yn 2021/22 cyn cael incwm gan y garfan gyntaf o fyfyrwyr yn 2022/23. Gallai hyn effeithio ar lefel y gwarged y flwyddyn nesaf a chadarnhaodd yr aelodau y byddai lefel gwarged is yn dderbyniol dan yr amgylchiadau.<br><br>Edrychodd yr aelodau ar raddfa'r contract Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar gyfer cyflawni rhaglenni nyrsio ac iechyd cysylltiedig. Eglurwyd, petai'r holl geisiadau'n llwyddiannus, byddai niferoedd myfyrwyr ac incwm ychwanegol arwyddocaol o fis Medi 2022.<br><br>Penderfynwyd:<br>CYMERADWYO'R tybiaethau a'r dull datblygu ar gyfer defnyddio cyllideb 2021/22 a CHADARNHAU lefel gwarged is petai contractau gofal iechyd Addysg a Gwella Iechyd yn cael eu dyfarnu i'r Brifysgol.</td><td></td></tr>
<tr><td>20.77</td><td>Diweddariad Campws 2025</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Derbyniwyd:<br>Diweddariad ynghylch datblygiadau Campws 2025.<br><br>Adroddwyd:<br>Darparwyd diweddariad ynghylch y gwrandawiad apêl ar gyfer safle Ffordd y Deon a gynhaliwyd ar 27 Ebrill. Ystyriwyd bod yr apêl wedi mynd gystal ag y gellid disgwyl. Gofynnwyd am eglurhad ar nifer o bwyntiau, megis beth fyddai'n digwydd i'r safle pe na roddwyd caniatâd cynllunio. Gofynnwyd am waith ychwanegol ar yr ymrwymiad cyffredinol rhwng y Brifysgol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'i gyflwyno. Nid oedd amserlen statudol ar gyfer penderfyniad.<br><br>Rhoddwyd caniatâd i Edwards Homes o ran eu cais materion cadwedig ac roeddynt yn awyddus i gwblhau'r pryniant yn awr.<br><br>Yn dilyn apêl cynllunio llwyddiannus safle Gatewen gwahoddwyd ceisiadau gan y farchnad erbyn 30 Ebrill 2021, a chyflwynwyd 13 cais yn amrywio o £2m i £7.8m. Er y gofynnwyd am gynigion diamod roedd amodau'n gysylltiedig â'r rhan fwyaf ohonynt. Byddai llunio rhestr fer, gyda chyngor gan Legat Owen, yn digwydd ar 11 Mai a bwriadwyd gofyn i'r ceiswyr am ragor o fanylion lle bo'n ofynnol.<br><br>Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau wedi bod mewn cyfarfod Cyngor Myfyrwyr ar y campws i ddarparu diweddariad ynghylch y gwelliannau i'r campws. Roedd y myfyrwyr wedi dangos llawer o ddiddordeb yn y gwelliannau'n gysylltiedig â'r agendâu Datgarboneddio a'r Economi Gwyrdd.<br><br>Ategodd yr aelodau eu diolch i'r timau ystadau, Technoleg Gwybodaeth a Chyllid am eu gwaith yn dyrannu'r cyllid ychwanegol yn unol â'r amserlenni byr a ddarparwyd.<br><br>Penderfynwyd:<br>NODI'R adroddiad.<br><br>CYTUNO i gynnal cyfarfod arbennig y Bwrdd, petai'n ofynnol, i ystyried yr Adroddiad Elusennau i gymeradwyo gwaredu safle Gatewen i'r ceisydd a argymhellwyd.</td><td></td></tr>
<tr><td>20.78</td><td>Cynllun Meistr Partneriaeth Porth Wrecsam</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Derbyniwyd:<br>(i) Briffio ar statws y cynllun meistr ar gyfer Porth Wrecsam.</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | (ii) Cynigion cynllun meistr Porth Wrecsam.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnwyd sylw at y datblygiadau'n deillio o waith Partneriaeth Porth Wrecsam. Roedd momentwm o ran cyflawni Cynllun Meistr Partneriaeth Porth Wrecsam gyda £25m o gyllid Llywodraeth Cymru i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer moderneiddio'n orsaf reilffordd a pharth y cyhoedd (Dwyrain y Porth).<br><br>Roedd Partneriaeth Porth Wrecsam wedi cytuno i gyflwyno cais i 'Gronfa Codi'r Gwastad' Llywodareth y Deyrnas Unedig am £4.8bn i gynorthwyo i gyllido parth y cyhoedd o amgylch stadiwm y Cae Ras, nesaf at gampws Plas Coch a'r llety i fyfyrwyr (Gorllewin y Porth).<br><br>Roedd perchnogion newydd Clwb Pel-droed Wrecsam yn awyddus i wella'r Stadiwm ac adfer pen y Kop cyn cyflawni cynllun meistr Partneriaeth Porth Wrecsam yn llwyr ac wedi cysylltu â'r Brifysgol ynghylch y potensial o brynu'r Stadiwm ganddi. Byddai'n rhaid i unrhyw negodi ynghylch gwerthu'r Stadiwm gynnwys cyfamodau, er enghraifft, cadw'r safle fel lleoliad chwaraeon ar gyfer y Clwb Pel-droed. Croesawyd y potensial i werthu Stadiwm y Cae Ras yn ôl i'r Clwb Pel-droed ac roedd yn debygol y byddai cynnig yn cael ei gyflwyno gerbron y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.<br><br>Mae'r gwaith i gyffordd Lôn Crispin, y mae'n ofynnol i'r Brifysgol eu cyflawni fel rhan o amodau cynllunio campws Plas Coch, yn parhau i gael eu trafod. Mae'r Brifysgol yn dymuno sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd â'r cynllun meistr ac anfonwyd llythyr, wedi'i lofnodi gan Lywodraeth Cymru, at y Prif Swyddog Cynllunio yn ceisio datrysiad synhwyrol i'r sefyllfa gyfredol.<br><br>Amlinellwyd y ddau ddewis yn y cynllun meistr, er fod un dewis yn awgrymu maes parcio o dan ben Kop Stadiwm y Cae Ras, nad oedd yn cael ei ffafrio gan berchnogion Clwb Pel-droed Wrecsam. Byddai un dewis yn ynysu tir y Brifysgol a fwriedir ar gyfer datblygu llety i fyfyrwyr arno yn y dyfodol hefyd, a byddai angen ystyried hynny.<br><br>Croesawodd yr aelodau'r cynlluniau ar gyfer datblygu Porth Wrecsam a fyddai'n cael ei gryfhau gan fuddsoddiad arwyddocaol yn rhwydwaith rheilffyrdd Gogledd Cymru. Roedd llwybr i gerddwyr yn uniongyrchol o'r orsaf i'r campws yn cael ei ystyried.<br><br>Amlinellwyd effaith ariannol datblygiadau Porth Wrecsam ar y Brifysgol ac roeddynt yn gadarnhaol yn bennaf.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R briffio a CHADARNHAU symud i negodi ffurfiol â pherchnogion y Clwb Pel-droed o ran gwerthu arfaethedig Stadiwm y Cae Ras. | |
| **20.79** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Adroddodd y Cadeirydd am ddigwyddiadau y bu'n rhan ohonynt ers y cyfarfod diwethaf, yn cynnwys y cyfweliadau ar gyfer llywodraethwyr newyddd a bod yn bresennol yng nghyfarofydd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.80** | **Adroddiad Risgiau Corfforaethol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Crynodeb Risgiau Corfforaethol a Map Gwres Risgiau, Mawrth 2021. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yr adroddiad, yn nodi na fu unrhyw newid i'r sgorau risgiau. Mewn ymateb i gwestiwn y Pwyllgor Archwilio ynghylch y sgôr risg cofrestru myfyrwyr, gan nad oedd y cofrestriadau wedi cyrraedd lefelau'r flwyddyn flaenorol eto, roedd hwn yn parhau'n sgôr uchel iawn. Serch hynny, byddai Bwrdd yr Is-Ganghellor yn adolygu'r sgôr maes o law yn sgîl y darlun recriwtio sy'n gwella.<br><br>Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau ystyried y risgiau potensial o ran datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd yn y gofrestr risgiau.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **20.81** | **CCAUC – Cronfa Adfer a Buddsoddi mewn Addysg Uwch** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar yr adroddiadau a ddosbarthwyd i aelodau ym mis Mawrth 2021 fel rhan o fonitro gwariant gan CCAUC a'r cynnydd yn erbyn y cyllid a ddyrannwyd i'r Brifysgol trwy'r Gronfa Adfer a Buddsoddi mewn Addysg Uwch.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad a CHYTUNO i barhau i dderbyn adroddiadau monitro wedi'u dosbarthu i'r aelodau. | |
| **20.82** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **20.82.01 Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2021.<br>(ii) Sgôp adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd 2021/22.<br>(iii) Gweithdrefn penodi'r Canghellor.<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd yn Ebrill 2021.<br><br>NODI bod cofnodion 22 Ebrill heb eu cadarnhau wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>CYMERADWYO sgôp adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd 2021/22.<br><br>CYMERADWYO'R weithdrefn wedi'i diweddaru ar gyfer penodi'r Canghellor. | |
| | **20.82.02 Pwyllgor Adnoddau Dynol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2021.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnwyd sylw at y gwaith arwyddocaol a wnaed i fodloni'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn dilyn digwyddiad yn cynnwys contractwr yng nghampws Llanelwy ym mis Mehefin 2020 gan y Cadeirydd. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi croesawu canfyddiadau'r adolygiad trydydd parti o ran diogelwch tân ym Mhentref Myfyrwyr Wrecsam.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2021. | |

| | | |
|---|---|---|
| | NODI bod cofnodion 22 Ebrill heb eu cadarnhau wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd. | |
| | **20.82.03 Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2021.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnwyd sylw at adroddiad a chyflwyniad rhagorol gan yr Undeb Myfyrwyr ynghylch ei grant bloc 2021/22 gan Gadeirydd y Pwyllgor.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2021.<br><br>NODI bod cofnodion 23 Ebrill heb eu cadarnhau wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd. | |

Diwedd